
Pris: 50c

# Papur Pawb

Mai 2023 Rhif 489



"Wyddost ti fod y brenin newydd wedi cael ei enwi ar ôl dau gi defaid - Carlo a Rex."

tud 3 Pobl a Phethe
tud 4 Ysgol Tal-y-bont
tud 7 Elan ar Daith
tud 10 Samplu Afonydd

# Hyrwyddo Bioamrywiaeth

Clywn bob dydd am ddirywiad parhaus y byd naturiol o'n cwmpas wrth i ystod eang o ffactorau effeithio yn negyddol ar ein hamgylchedd. Erbyn hyn mae un o bob chwe rhywogaeth – o eogiaid i ddraenogod – mewn perygl o ddiflannu yng Nghymru ac nid yw ecosystemau naturiol y wlad – megis afonydd neu goetiroedd, yn ddigon gwydn i wynebu heriau heddiw ac yfory.

Erbyn hyn, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn rhoi dyletswydd ar pob awdurdod cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru i gynnal ac i wella bioamrywiaeth ac i annog cryfder ecosystemau yn ei gylch gorchwyl. I Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr mae hyn yn golygu rhoi sylw dyladwy i fioamrywiaeth yn ei holl weithredoedd, er enghraifft wrth drafod ceisiadau cynllunio, mabwysiadu polisi caffael cynaliadwy, trwy addasu rhaglenni cynnal a chadw ac wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â chefnogaeth a chymorth ariannol.

Penododd y Cyngor wedi ddau gynghorydd i arwain a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Dyletswydd Bioamrywiaeth a'u cam cyntaf oedd llunio cynllun gweithredu. Bydd canlyniadau yn cael eu monitro yn erbyn amcanion y cynllun yn rheolaidd a'u cynnwys wedyn yn adroddiad blynyddol y Cyngor. Mae'r rhaglen torri gwair eisoes wedi'i diweddaru i fod yn fwy cyfeillgar i fioamrywiaeth a bydd canllawiau yn ymwneud â defnyddio plaladdwyr a rhywogaethau ymledol anfrodorol y tro nesaf y caiff y contract ei osod.



*Derwen ger Maesyderi*

Gobeithir cyfoethogi ymylon glaswellt wrth blannu blodau gwyllt yn ogystal â chreu cynefinoedd newydd mewn mannau gwyrdd cyhoeddus.

Un prosiect newydd fydd cofnodi coed hynafol a nodedig yr ardal ar fas-data Coed Cymru, a byddant yn holi am help y gymuned i wneud hyn. Mae coed hynafol yn llawn cilfachau, tyllau a phren sy'n pydru ac wrth i'r blynyddoedd fynd heibio maent yn gartrefi perffaith i filoedd o rywogaethau, o blanhigion, anifeiliaid a ffyngau, gan gynnwys llawer sy'n brin. Mae'r cewri hynafol hyn gymaint yn rhan o'n treftadaeth â chestyll a gweithiau celf ond nid ydynt yn cael yr un gwarchodaeth, felly mae nodi eu lleoliadau yn bwysig. Y goeden gyntaf i'w nodi fydd y dderwen fawr sy'n edrych dros y Cae Chwarae. Y goeden nodedig hon yw'r olaf o glwstwr o goed derw a gafodd eu cwympo yn y 1960au pan adeiladwyd yr ystâd newydd ac o ble mae Maesyderi yn cael ei enw.

Ar yr ochr bositif, mae llawer o waith da ac uchelgeisiol yn digwydd hefyd i geisio arafu'r dirywiad a throi'r llanw. Nid y mentrau ar raddfa fawr yn unig sy'n bwysig, ond hefyd y gweithredoedd llai, lleol, bob dydd sy'n gallu gwneud gwahaniaeth yn ein pentrefi a'n gerddi. Mae cydweithio yn allweddol i lwyddiant ac mae'r Cyngor yn awyddus i ysbrydoli a chefnogi phrosiectau sy'n gofalu am ein byd natur gwerthfawr.

(Parhad ar dudalen 10)



*Plant Ysgol Sul Bethel, Tal-y-bont yn mwynhau hufen iâ ger lan y môr yn Aberystwyth ar ôl y Gymanfa Ganu ar 7 Mai. Llun: Mair Nutting*

## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Non Griffiths
**(01654) 781264**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Plygu'r Papur:**
Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins

**Dosbarthwyr:**
Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon; John Evans; Innes Heron

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

CYMRAEG

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)


### CLWB CANT NEUADD LLANFACH

Enillwyr mis Ebrill:

1. Michael Jones, Rhif 086
2. Ron Hicks, Rhif 006
3. Catherine Hutton, Rhif 077

### GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Megan a Phil gyda Siôn yn dylunio. Diolch iddynt.

Rhian, rhian.nelmes@btinternet.com a Shân fydd yn golygu rhifyn Mehefin.

Y dyddiad cau yw 2 Mehefin a bydd y papur ar werth ar 9 Mehefin.

Annwyl Ddarllenydd,

**Wythnos Cynnig Cymraeg – 15-19 Mai 2023**

Hoffwn dynnu eich sylw at gynllun o'r enw y 'Cynnig Cymraeg', sy'n cydnabod ymdrechion cyrff nad ydynt yn dod o dan Safonau'r Gymraeg i greu cynlluniau datblygu'r Gymraeg. Cyrff sector breifat, trydydd sector ac elusennau yw'r rhain yn bennaf. Mae'n gyfle iddynt ddangos eu bod yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn barod i'w defnyddio.

Caiff wythnos y 'Cynnig Cymraeg' ei chynnal rhwng 15-19 Mai a bydd sylw ar y cyfryngau i'r cyrff sydd wedi derbyn ein cydnabyddiaeth. Maent yn cynnwys Boots, NSPCC, Lidl ac RSPB Cymru.

Mae'r sefydliadau yma yn awyddus i bobl ddefnyddio eu gwasanaethau Cymraeg, felly dyma dynnu eich sylw atynt a'ch annog i fanteisio arnynt. Gellir gweld mwy am y cynllun ar ein gwefan - www.comisiynyddygymraeg.cymru - a byddwn yn gwerthfawrogi eich cymorth i ledu'r gair!

Diolch yn fawr,

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg

Annwyl Olygydd

Ymchwil sy'n archwilio defnydd y Gymraeg o fewn gofal iechyd, yn benodol pobl gyda chyflyrau cronig.

Helo!

Rwy'n fyfyriwr Gradd Meistr trwy Ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe. Fy ngoruchwyliwr yw Dr Alwena Morgan (a.h.morgan@swansea.ac.uk) a rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Dr Llinos Roberts (l.roberts@swansea.ac.uk). Dwi'n edrych ar brofiadau unigolion gyda chyflyrau cronig neu sy'n derbyn monitor rheolaidd gan ofalwr iechyd o ddefnydd y Gymraeg o fewn gofal iechyd. Byddwn i'n hynod o ddiolchgar os allwch chi ateb fy holiadur os yw'n berthnasol i chi a'i rannu fel y gwelwch yn briodol. Rwy'n ceisio cael cymaint o ymatebion o bob cwr o Gymru, yn enwedig ardaloedd a chymunedau Cymraeg ei hiaith ac felly roeddwn i'n gobeithio y byddwch chi fel papur bro yn fodlon helpu lledaenu os yw'n addas?

Os hoffech chi drafod mwy neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau/sylwadau/adborth, peidiwch oedi i gysylltu! – 1908235@swansea.ac.uk

Dyma'r linc i'r holiadur: https://qfreeaccountssjc1.az1.qualtrics.com/jfe/form/SV_0wUrW5dySTLLonI

Diolch yn fawr a chofion cynnes,

Maisie Edwards

# Dyddiadur

**MAI**

13 Parti Dathlu'r Deg a Barbeciw 3–9 Cletwr

14 Bethel 10 Gwilym Tudur (C)

Eglwys Sant Mihangel Eglwysfach 9.30

Capel Bethesda Tynant 2 Geraint Evans

14–21 Wythnos Cymorth Cristnogol

15 Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch 'Serennu' (Gwladys Evans)

17 Taith gerdded 2–3 Cletwr

18 Hyfforddiant ar Gyfrifon Blodau-Pryfed wedi'u Hamseru 6.30–8 Cletwr

19 Band Gwerin 'Three Legg'd Mare' 7.30–9.30 Cletwr

21 Bethel 10 Uno â Seion, Gwilym Tudur

Rehoboth 5 Gweinidog

Eglwys Sant Mihangel Eglwysfach 9.30

Gŵyl y Peillwyr 10–4 Cletwr

Paentio planhigion mewn dyfrlliw gyda Jenny Fell 2–4 Cletwr

23 Apêl Sioe'r Cardis 2024, Cyfarfod Pwyllgor Gogledd y Sir 7.30 Neuadd Llanfarian

25 Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 7 Hwyrol Weddi

26 Sesiwn Nos Wener (Geraint Løvgreen) 8 Llew Gwyn

28 Bethel 10 Geraint Evans

Eglwys Sant Mihangel Eglwysfach 9.30

**MEHEFIN**

4 Bethel 10 Uno â Seion, Emyr James

Rehoboth 11.15 Gweinidog

Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30

Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Cymun

11 Bethel 10 Gwilym Tudur (C)

Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Cymun Bendigaid

**BOB WYTHNOS**

Cletwr Dydd Llun 2.30–4.30 'Pwyth a Chlonc'

Cletwr Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'




## Llwyddiant Ysgubol

Llongyfarchiadau mawr i Carys Briddon, Penrhyn, Tre'r Ddôl ar ei llwyddiant ysgubol diweddar yn ennill gwobrau am bedair ysgrif – yn Eisteddfodau Mynytho, Capel y Groes Llanwnnen, Penrhyn-coch, yn ogystal ag Eisteddfod Trevelin, Patagonia! Cawn gyfle i flasu ysgrif hynod o ddifyr Carys am Siop Bontgoch, a gipiodd y wobr ym Mhenrhyn-coch, yn y Papur yn y dyfodol agos.

## Wynebau Lleol ar S4C

Cafwyd cyfweliad gyda Jâms Morgan, Maesnewydd ar y rhaglen Ffermio ar S4C yn ystod y mis. Bydd llawer o newidiadau yn wynebu ffermwyr llaeth yn ystod y blynyddoedd i ddod ac roedd hi'n ddiddorol clywed barn Jâms am heriau'r dyfodol. Yna cawsom wylio ei chwaer, Eleri Morgan, ar y rhaglen Drych: Dyfodol i Dewi yn trafod yr hyn sy'n wynebu rhieni newydd wrth iddynt geisio magu plant mewn oes sy'n llawn pryder am yr amgylchedd. Os na welsoch y rhaglenni hyn maent ar gael ar wasanaeth Clic S4C.

Roedd hi'n braf hefyd gweld Megan Mai, Gwynionydd yn ymddangos ar Prynhawn Da. Er iddi fynd i'r stiwdio i drafod rhai o gynlluniau Merched y Wawr bu'n rhaid iddi fod yn rhan o banel yn blasu a beirniadu gwahanol fathau o de! Gwelwyd Cian Llewelyn, Is-y-Coed ar Prynhawn Da yn ogystal yn trafod Cynllun Gweilch Dyfi ac mae Gruff Lewis yn cael lle amlwg ar raglenni'r Sianel o'r Giro Italia ar hyn o bryd.

## Profedigaeth

Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar David Jenkins, Cwm Road, Tal-y-bont a fu farw yn gynharach eleni. Gobeithiwn gyhoeddi teyrnged iddo mis mesaf.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Sky Dibble a Cameron Brakstad o Maesyderi ar enedigaeth eu merch fach newydd Kayla Elizabeth.

## Jodie Yn Arwain y ffordd

Wrth i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ddenu sylw'r byd am fabwysiadu enw Cymraeg gwreiddiol yr ardal fel enw swyddogol, roedd hi'n braf deall taw Jodie Bond, (Burnham gynt), a fagwyd yn ardal Papur Pawb, oedd yn arwain yr ymdrech farchnata. Llongyfarchiadau mawr iddi am arwain y fath newid ac am ddenu yr holl sylw i'r Parc ac at y Gymraeg.

# Pobl a Phethe

## Hetiau'r Cwtsh Cynnes



Trwy fisoedd oer y gaeaf bu rhai o'r merched sy'n mynychu'r Cwtsh Cynnes yn y Neuadd Goffa bob bore dydd Mawrth wrthi'n ddyfal yn gwau hetiau ar gyfer Apêl Wcrain a drefnir gan Jenny Jenkins (Southgate gynt). Llongyfarchiadau iddynt ar yr ymdrech ragorol. Cofiwch fod y boreau coffi am 10.00 bob bore Mawrth yn parhau tan yr haf , ac mae croeso i bawb, hyd yn oed y rheiny sydd ddim yn medru gwau! Mae'r croeso'n gynnes a'r sgwrs yn ddifyr.

## Priodas Aur

Llongyfarchiadau mawr i Eirian a Geraint Evans. Garnwen, Tal-y-bont wrth iddynt ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

## Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Arvid Parry-Jones, Isallt, Tal-y-bont ar dathlu pen-blwydd arbennig ddechrau mis Mai.

## Profedigaeth

Gyda thristwch y clywyd am farwolaeth Gwynfor Thomas, 9 Maesyderi, Tal-y-bont Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu colled.

## Cyfansoddwraig Dalentog

Yn Neuadd Hoddinot y BBC yng Nghanolfan Mileniwm Cymru Caerdydd yn ddiweddar eisteddai dau riant balch iawn o Dal-y-bont. Roeddent yno i glywed darn o gerddoriaeth a gyfansoddwyd gan eu merch Niamh. Nid dyma'r tro cyntaf i Mr a Mrs O'Donnell, Maesnant, Tal-y-bont deithio i'r brifddinas i glywed gwaith Niamh yn cael ei berfformio. Y tro yma Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC oedd yn perfformio gwaith Niamh. Graddiodd Niamh o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru gan weithio fel golygydd sgôr, trefnydd a chyfansoddwr llawrydd aml-genre. Llongyfarchiadau i ti Niamh; mae'n amlwg fod dyfodol disglair ym myd cerddoriaeth o dy flaen di.

## Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Dathlu Gŵyl Dewi yng nghaffi Cletwr oedd ein cyfarfod ym mis Mawrth a threuliwyd noson hwyliog a difyr yno yng nghwmni ein gwraig wâdd sef Geunor Roberts Llanymawddwy, Is-lywydd Cenedlaethol Merched y Wawr. Cafwyd croeso cynnes yn Cletwr gan Lauren oedd wedi paratoi gwledd o gawl i ni gyda chacennau Cymreig a the a choffi i ddilyn. Wedi'r gwledda cyflwynwyd Geunor gan Megan Mai a chafwyd sgwrs ddifyr iawn ganddi yn llawn hiwmor yn cynnwys y digwyddiadau dwys a'r doniol sy'n digwydd o ddydd i ddydd . Cyn troi am adre diolchwyd i bawb am noson gymdeithasol hamddenol gan Elizabeth Evans.

## Dathlu'r Deunaw

Llongyfarchiadau i Ioan Joseff, Maesyderi, fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed yn ystod y mis.

Hefyd llongyfarchiadau i Lili Gwen O'Brian, Cytringhan, Tal-y-bont sydd newydd ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed. Pob dymuniad da i ti'n y dyfodol.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Bleddyn a Delyth Huws, Henllan ar golli ewythr i Bleddyn, sef Gruff Hughes, Rhuthun.

## Babi Bach Newydd

Croeso i'r byd i Deian Gwyn Picken, bachgen bach Lowri a Siôn, Dôl Meillion, Llanilar, brawd bach i Joey ac ŵyr newydd i Elaine Rowlands, Maes-y-felin, Tal-y-bont. Llongyfarchiadau mawr.

## Dathlu Pen-blwydd

Llongyfarchiadau mawr i Betty Jenkins, Pengwern, Tal-y-bont (Carregcadwgan gynt) wrth iddi ddathlu pen-blwydd arbennig ddiwedd mis Mai.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Erfyl Foulkes, Rhosawel, Taliesin, gŵr Betty a thad Wendy, Gary, Hayley, Anthony a Ceri, tad-yng-nghyfraith Shelley a Chris a brawd i Alun.

## Apêl am Wybodaeth

Eleni fe fydd y Cae Bach, sef y Cae Chwarae ar bwys Maesyderi yn dathlu pen-blwydd yn 50 oed. Mae'r Cynghorydd Nia Richards ar ran y Cyngor Cymuned yn casglu hanesion a hen luniau ar hyn o bryd er mwyn paratoi cofnod manwl o'r hanes. Os oes gennych wybodaeth ddiddorol am y cyfnod a straeon difyr am ddigwyddiadau 1973 cofiwch anfon at Nia. Gobeithiwn gyhoeddi'r erthygl yn Papur Pawb yn ystod yr Hydref.

## Pen-blwydd Hapus

Llongyfarchiadau i Linda Denton, Felin Penpompren, Tal-y-bont sydd yn dathlu pen-blwydd arbennig y mis hwn. Mwynha'r dathlu.

# Ysgol Tal-y-bont

### Gwyl Pêl-droed yr Urdd

Aeth dau dîm o'r ysgol i gystadlu'n frwd yn erbyn plant o bob rhan o Geredigion ym mhencampwriaeth pêl-droed yr Urdd ar Gaeau Blaendolau. Fe wnaeth y tîm bechgyn yn dda iawn yn eu grŵp gan golli allan o gamu ymlaen i'r chwarteri o drwch blewyn. Ond heb golli na hyd yn oed ildio gôl yn eu chwe gêm, fe lwyddodd y tîm merched i gyrraedd y chwarteri mewn steil dim ond i golli yn y munud olaf ar ôl amser ychwanegol – ymdrech wych ferched. Da iawn Swyn ac Isaac am sgorio 4 gôl yr un ar y diwrnod.






### Gwyl Pêl rwyd yr Urdd

Digon tebyg oedd canlyniadau'r merched yn y gystadleuaeth pêl rwyd hefyd. Wedi ennill pob un o'r bedair gêm yn eu grŵp, llwyddodd y merched i gyrraedd y chwarteri cyn cael eu curo gan y pencampwyr ar y dydd. Diolch yn fawr i Mrs Claire Jones am fod gyda chi ar y ddau ddiwrnod yma, rydym yn gwerthfawrogi hynny'n fawr.






### Traws-gwlad

Yn dilyn cyfnod hir o beidio gallu cystadlu yn erbyn ysgolion eraill y cylch, roedd hi'n braf mentro i Ysgol Gymraeg Aberystwyth i redeg y cwrs traws-gwlad unwaith eto. Gyda dros 70 o blant yn cystadlu ymhob ras, roedd hi'n braf gweld rhai o ddisgyblion yr ysgol yn cyrraedd yn ôl gyda'r goreuon – da iawn chi blant.





### Clybiau ar ôl ysgol

Rydym yn rhedeg nifer o glybiau ar ôl ysgol llwyddiannus iawn ar hyn o bryd, lle mae cyfle i gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau. Ar nos Lun rydym yn cydweithio gyda Catrin, Swyddog Chwaraeon yr Urdd yng Ngheredigion i gynnal gweithdai aml chwaraeon, ar nos Fawrth, mae Bryn o BMO yn cynnal hyfforddiant pêl-droed ac ar nos Fercher a nos Iau mae Miss Watkin a Miss Eirian yn cynnal ein Clwb ar ôl Ysgol ni. Diolch yn fawr i chi gyda am roi'r profiadau cyfoethog i'r plant.



### RNLI

Yn flynyddol bellach, rydym yn derbyn sesiwn i'n hatgoffa ni o bwysigrwydd cadw'n ddiogel yn ystod misoedd yr haf wrth i ni fentro i'r traeth i fwynhau ein hunain. Cafodd y plant lawer o hwyl yn gwisgo'r dillad, ond roedd y neges i gadw'n ddiogel yn glir iawn, yn enwedig a ninnau'n byw mor agos i'r môr yn Y Borth. Gobeithio y bydd y tywydd yn caniatáu i ni gyd fwynhau picnic ar lan y môr dros yr wythnosau nesaf.

### Ysgol Greadigol

Diolch yn fawr i Adran Gerdd Ceredigion am drefnu gweithdy hynod boblogaidd gan y plant yn ystod y mis diwethaf. Derbyniodd yr ysgol wahoddiad i fynd i Ysgol Rhydypennau i gael cyflwyniad ar holl elfennau hynod a gwahanol rai o gyfansoddwyr mwyaf y byd, ynghyd â'u cerddoriaeth. Y bwriad oedd magu hyder yn y plant a dathlu gwahaniaethau ac annog addysgu creadigol. O weld a chlywed ymateb y plant ar y diwrnod ac ar ôl dod yn ôl, roedd y sesiwn yn llwyddiant mawr. Diolch ABC of Opera am y cyflwyniad llawn hwyl a sbri.



# Lladron

Mae lladron wedi torri mewn i fan o eiddo'r teulu Foster ym Maes-y-deri, Tal-y-bont, gan ddwyn offer gwerthfawr. Digwyddodd hyn nos Sul 7 Mai rhwng tua hanner nos a chwarter i un.

Roedd y lladron yn gyrru car Volkswagen Passat gan deithio i gyfeiriad Taliesin wedi hynny.

Petai gan unrhyw un o'r ddarllenwyr Papur Pawb wybodaeth am y digwyddiad neu luniau CCTV o'r car, byddai Tara Foster yn falch iawn o glywed oddi wrthynt.

# Clwb Hen Beiriannau

Ar nos Fercher 12$^{\text{fed}}$ Ebrill daeth Ioan Lord atom yn y Llew Gwyn. Mae Ioan yn enedigol o Gwm Rheidol ond yn byw erbyn hyn yn Nhal-y-bont. Mae wedi ymddiddori yn y gweithfeydd mwyn sydd o'n amgylch ers ei blentyndod.

Cafwyd noson hynod o ddiddorol gyda Ioan yn dangos lluniau o rai o'r pethau mae wedi darganfod yn yr hen weithfeydd lleol. Nid yw'r rhan fwyaf o'r pethau wedi gweld golau dydd (neu olau cannwyll i fod yn gywir) ers canrif a mwy. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd peidio ag amharu ar bethau fel olion traed; pethau sy'n rhoi naws o fywyd pob-dydd yr hen fwynwyr. Bywyd caled iawn dybiwn i. Ifanc fyddai'r mwyafrif ohonynt er i mi gyfeirio atynt fel 'hen' fwynwyr.

Hoeliwyd ein sylw gyda'r wybodaeth am y diwydiant lleol gyda ffeithiau a ffigyrau ar flaenau'i fysedd. Daeth rhai i'r cyfarfod heb fod â llawer o ddiddordeb yn yr hen weithfeydd ond gadawsant wedi cael agoriad llygaid. Diolch i Ioan am rannu peth o'i frwdfrydedd. Noson wirioneddol wych!!

Dyma 'logo' y Clwb. Mae'n efelychu'r arwyddlun gynlluniodd Simon Hughes pan sefydlodd y North Cardiganshire Mining Club nôl yn y chwedegau. Dwy gaib wedi'u croesi oedd ar y logo hwnnw. Sbaner a morthwyl sydd gennym ni. Diolch i Tomos Watkin, Blaenwaun am ddylunio'r logo.

Teg dweud fod Ioan Lord yn cydnabod cyfraniad pwysig Simon Hughes i hanes y diwydiant mwyn lleol a thu hwnt. Trueni iddo golli ei iechyd yn gymharol ifanc. Addas efallai fod Ioan yn byw o fewn tafliad carreg i hen gartref Simon

John Evans

# Cletwr

**Pen-blwydd hapus i ni…**

Ie, 10 mlynedd o wasanaeth i'r gymuned. Mwy am hyn nes ymlaen.

Mae'r haf wedi cyrraedd, ac mae Cletwr yn dechrau llenwi gyda phobl leol ac ymwelwyr. Cawsom Basg prysur iawn, ac mae'r torfeydd wedi parhau ers hynny. Mae 6 mis diddorol o'n blaen ni! Yn anffodus, mae gwasanaeth cyfyngedig yn y Caffi ar hyn o bryd – bwydlen llawn ddydd Marcher tan ddydd Sul, ond, oherwydd diffyg staff, bydd y gegin ar gau ddydd Llun a dydd Mawrth am ychydig wythnosau, ond mae'r Caffi dal ar agor ar gyfer diodydd a chacen. Gobeithio cawn recriwtio nifer o weithwyr brwdfrydig newydd yn y dyfodol agos. (Cysylltwch â ni os oes diddordeb gennych ymuno â'r tîm). Yn y cyfamser, diolch o galon i'r sawl sydd yn dod i mewn i helpu i Ashleigh gynnig ein gwasanaeth ardderchog arferol.

Mae nifer o bethau diddorol ar y gorwel yn ystod mis Mai. Nos Wener yma, y 12$^{\text{fed}}$, fe fydd cyngerdd am ddim gan Sinffonia Cymru. Wedyn, mae cyngerdd dra wahanol ar nos Wener 19$^{\text{eg}}$, "Three Legg'd Mare" yn canu caneuon traddodiadol, Cymraeg a Saesneg.

Mae planhigion yn cymryd canol y llwyfan y mis 'ma. Nos Iau, 18$^{\text{fed}}$, bydd sesiwn Hyfforddiant ar gyfrifon blodau-pryfed (rhan o Gynllun Monitro Peillwyr y DU). Nesaf, dydd Sul 21$^{\text{ain}}$, sesiwn "Paentio planhigion mewn dyfrlliw" gyda Jenny Fell. Y ddau achlysur hyn yn rhan o'n Gŵyl y Peillwyr, drwy'r dydd ar 21$^{\text{ain}}$: Stondin yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn a Charu Gwenyn, Cwch gwenyn arddangos, Lliwio cardiau pryfed a'n Grŵp Garddio o gwmpas i ateb cwestiynau. Dewch yn llu.

Mae manylion o bob digwyddiad ar ein tudalen Facebook, ynghyd â chyfle i fwcio tocyn os oes angen.

Agorir arddangosfa celf newydd yn y Cwtsh ar y 10$^{\text{fed}}$. Gwaith hynod o brydferth gan Anne Thomas o Ynyslas, "Celfyddyd y Cysegredig"

A dyna i gyd am y mis. Oh, na. Arhoswch am eiliad. Rydw i wedi anghofio rhywbeth. Beth oedd e? Hmmm….

O ie, EIN PEN-BLWYDD YN 10 OED! Bydd BBQ o 4 tan 8-ish dydd Sadwrn 13$^{\text{eg}}$. Dewch i ddathlu deng mlynedd o lwyddiant, diolch i lu o bobl: ein staff a gwirfoddolwyr oll (cannoedd ohonyn nhw), Huw a Sue Lewis am eu cymorth yn y dyddiau cynnar yn yr hen adeilad, Y Loteri, Llywodraeth Cymru, yr Undeb Ewropeaidd, Cyngor Ceredigion a llawer mwy am dros £900,000 o grantiau, a sicrhaodd bod y gymuned biau'r holl fenter, ac fe all Cletwr gweithio er les y gymuned, nid er elw. Ac wrth gwrs, diolch hefyd i'r bobl bwysicaf, ein cwsmeriaid ffyddlon. Ymunwch â ni i yfed llwncdestun i'r deg (neu gan?) mlynedd nesaf. Fe welwn ni chi yno.





## Tro i Weld Gweilch y Pysgod

Hwre! Roedd yn bnawn Llun sych ym mis Ebrill, pan aeth aelodau Merched y Wawr Tal-y-bont am dro draw i Ganolfan Natur Dyfi ar ei newydd wedd ac wrth gwrs i weld nyth Gweilch y Pysgod. Cawsom groeso cynnes gan Alwyn un o'r Wardeniaid a fu yn Ysgol Dyffryn Ogwen gyda Fal Jenkins. Diolch am drefnu Fal! Mae Alwyn wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth i'r ganolfan ac yn treulio tua chwe mis o'r flwyddyn yma. Felly pwy well i esbonio cefndir y Ganolfan a hanes y Gweilch sydd wedi bod yn nythu yna ers 2009 pan agorwyd y safle gan Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn.



Wrth gerdded ar hyd y llwybr trwy Gors Ddyfi gwelwyd lle roedd prosiect newydd - llyn yr afancod yn datblygu. Yn anffodus, nid oeddynt i'w gweld gan mai creaduriaid y nos ydynt. Ymlaen wedyn at y Ganolfan wylio lle'n croesawyd gan Cian Llewelyn o Dal-y-bont, un arall o'r staff. Yn y tŵr gwylio roedd sgrin fawr ac arni ddarlledd byw o'r adar, yn ogystal â sawl ysbïenddrych a chyfle i bawb yn ei dro cael cip ar Idris a Telyn ar eu nyth. Ar y pryd roedd Telyn wedi dodwy 2 wy ond erbyn hyn mae tri o wyau yna a gyda lwc, dylem ni weld tri cyw yn deor tua'r 20 Mai.

Ar y ffordd yn ôl i'r Ganolfan newydd daeth yr haul allan a ddenodd nifer o fadfallod bach - gwyrdd a du i orwedd ar ochr y llwybr. Aethom i fyny'r grisiau hardd a luniwyd fel un o hen longau'r Ddyfi gan Carwyn Lloyd Jones, crefftwr lleol o Bow Street. Ar y llawr ucha roedd cynllun o aber y Ddyfi wedi ei lunio o hen geiniogau, roedd yn wir werth ei weld. Daeth prynhawn hyfryd i ben dros baned o de a chacen o Gaffi Tŷ Maenan a chyfle i bawb eistedd allan yn yr haul i gael sgwrs cyn ei throi am adre.

EapG

## Bethel Tal-y-bont

Yn dilyn cyhoeddiad Gweinidog Bethel, Gwilym Tudur, ei fod yn ymadael ddiwedd Gorffennaf er mwyn cychwyn ar gwrs Doethuriaeth ym Mhrifysgol Caergrawnt, bu'r Diaconiaid a'r Swyddogion yn trafod y dyfodol a chytunwyd mewn Cwrdd Eglwys fore Sul 23 Ebrill ein bod yn dymuno parhau i gydweithio mewn gofalaeth gyda Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth ac mai cam gwag fyddai dod â'r trefniant presennol i ben. Enwyd y canlynol i gynrychioli Bethel mewn trafodaethau gyda Seion, sef Falyri Jenkins, David Jones, Phil Davies ac Eirian Evans.

Bydd cyfle ar ddiwedd gwasanaeth 9 Gorffennaf i ffarwelio â Gwilym ac Alex a threfnir paned yn y Neuadd ar ddiwedd yr oedfa



*Rhai o blant Ysgol Sul Bethel, gyda'r gweinidog Gwilym Tudur, yn cyflwyno dwy siec am £143.50 yr un i dîmau Achub Mynydd Aberhonddu ac Aberdyfi, casgliad a wnaed yn y gwasanaeth Nadolig y llynedd.*

Trafodwyd oblygiadau'r ymadawiad i drefn gwasanaethau Bethel o Fedi ymlaen a daethpwyd i'r casgliad taw cwrdd dwy waith y mis oedd y nod, gyda Geraint Evans yn cynnig cynnal oedfa ar y pedwerydd Sul o bob mis. Penderfynwyd anelu at gynnal oedfa ar yr ail Sul o bob mis yn ogystal gan drefnu oedfa deulu oni bai ein bod yn medru denu pregethwr gwadd. Cynigiodd Gwyn a Falyri Jenkins arwain oedfa ym mis Medi a David Jones ym mis Hydref.

Adroddwyd yn y cyfarfod fod £367 wedi ei gasglu fore Sul y Pasg at Apêl DEC Twrci/Syria a £150 arall trwy werthu lluniau gan Ruth Jên o'r Capel, sef cyfanswm o £517. Diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth hael i'r achos teilwng hwn.

Mewn ymateb i'r apêl am ddiaconiaid newydd derbyniwyd llythyr gan Geraint Evans yn cyflwyno ei enw i wasanaethu fel Diacon. Cyflwynwyd enw Geraint i'r gynulleidfa yn y Cwrdd Eglwys a chytunwyd yn unfrydol i'w dderbyn fel Diacon gyda llawenydd. Diolchwyd iddo am ei barodrwydd i wasanaethu'r Capel ac ail adroddwyd y gwahoddiad i eraill gynnig eu henwau yn yr un modd.

Os oes unrhyw un â diddordeb mewn ymaelodi â Chapel Bethel mae croeso cynnes yn eich disgwyl. Dylid cysylltu â'r swyddogion neu ymweld â ni ar yr ail neu'r pedwerydd Sul o bob mis.


Phil Davies





James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760






# Elan ar Daith i Ben-draw'r Byd

Ym mis Mawrth mi gefais y cyfle i fynd draw i Awstralia, ac yn benodol Tasmania, i berfformio Qwerin efo Osian Meilir a Cêt Haf. Mae Qwerin yn berfformiad 35 munud o hyd sydd yn cyfuno dawnsio cyfoes efo dawnsio gwerin Cymreig, gan ychwanegu ychydig o "club culture". Rydyn ni wedi perfformio mewn nifer o wyliau yng Nghymru gan gynnwys yr Eisteddfod y llynedd yn Nhregaron a mi oedd cael gwahoddiad i fynd i Awstralia i berfformio wedi'n cyffroi ni'n llwyr! Roedden ni'n perfformio fel rhan o'r ŵyl *Ten Days on the Island*, gŵyl sydd yn digwydd pob dwy flynedd ac yn llawn celf, cerddoriaeth a dawns o Awstralia a thu hwnt.




Dechreuodd y daith yn Heathrow gydag ehediad 16 awr a hanner i Perth!

A wedyn hediad arall o dair awr a hanner i Melbourne lle ges i gwrdd a treulio bach o amser efo fy nghefnder.

Ar ôl hediad arall mi gyrhaeddon ni Hobart, prif ddinas talaith Tasmania. Dyma gael cwpl o ddiwrnodau i gwrdd ag artistiaid eraill oedd yn rhan o'r ŵyl a gwylio perfformiadau dawns a theatr cyn mynd i wneud gweithdy efo grŵp o bobl ifanc o'r ardal. Roedd y bobl ifanc yn hollol hyfryd a mi ddysgon ni ddarn o'n dawns iddyn nhw fel bod nhw'n gallu ymuno efo'r perfformiad y dydd Sadwrn canlynol. Roedd pawb ychydig yn nerfus cyn y perfformiad gan nad oedden ni wedi perfformio y tu allan i Gymru ac yn ansicr a fyddai pobl yn deall y darn. Ond, cafon ni gynulleidfa arbennig a oedd yn wirioneddol werthfawrogi'r sioe a rhai ohonynt yn falch iawn o fod â chyndeidiau Cymreig.

Ar ôl hynny mwy o deithio. Dwy awr a hanner i'r gogledd ac i dref o'r enw Launceston - yn barod i wneud dau berfformiad y diwrnod canlynol. Yn y bore roedden ni'n perfformio ym mharc y dref ac wrth ddawnsio mi sylwodd y tri ohonom ar berson yn y gynulleidfa yn gwisgo grys efo fflag Cymru! Ar ôl perfformio roedd yn rhaid mynd i siarad a darganfod bod y dyn yn dod o Gymru'n wreiddiol ac wedi symud i Awstralia fel un o'r *ten pound poms*!

Mi deithion ni'n bellach i fyny'r ynys wedyn a chyrraedd Stanley sy'n bentref bach agos-atoch efo lot o gymeriadau difyr ac yn teimlo'n reit gyfarwydd mewn sawl ffordd, ond roedd yna un peth gwahanol iawn – pengwins!



Mi stopion ni hefyd mewn tref o'r enw Penguin, mwy am yr enw 'na dim byd arall!

Perfformiadau wedyn yn Devonport a Burnie i orffen y daith yn Tasmania a chael cynulleidfaoedd gwych.

Mae Qwerin wedi cael ei gynllunio i gael ei berfformio tu allan, ond fel arfer wrth Canolfan Gelfyddydau lle mae modd symud i mewn os yw'r tywydd yn ddifrifol. Ond yn Tasmania gan ein bod ni yn symud o le i le roedd tipyn o waith i'w wneud cyn hyd yn oed dechrau dawnsio. Cyrraedd y lle o leiaf dwy awr mlaen llaw i ddewis yr union leoliad a gwneud yn siŵr bod yna le i blygio'r *speakers* i fewn. Wedyn gosod y gazebo a rhoi'r dillad i'w hongian. Ar ôl hynny bydden ni'n mynd at y lleoliad a gwneud "sound check" bach a mynd drwy'r perfformiad yn gyflym i weld bod digon o le, nodi darnau anwastad o'r llawr a gweld os allen ni neud rhywbeth am hynny! Wedyn nôl i'r gazebo, cynhesu fyny a gwisgo cyn gwneud y sioe. Y sioe ei hun – yn bleser bob tro.



Ar ôl y sioe mynd allan a siarad efo ychydig o'r gynulleidfa i weld a oedden nhw wedi mwynhau'r sioe. Yna rhoi'r holl wisgoedd nôl yn y *suitcase* a'u rhoi yn y fan a wedyn tynnu lawr y gazebo. Erbyn diwedd roedden ni'n feistri ar roi'r gazebo fyny a lawr!

Gafon ni berfformio deg o weithiau i gyd mewn deg lleoliad gwahanol ar draws yr ynys a mi gasglon ni gefnogwyr ar hyd y ffordd a'n dilynodd ni o gwmpas. Profiad hyfryd! Tair wythnos arbennig yna'n perfformio, busnesa, bwyta a dod i nabod yr ynys a chael gwerthfawrogi dathliad yr Ynys o ddiwylliannau lleiafrifol Awstralia a thu hwnt.

Byddwn ni'n argymell i unrhyw un sydd yn mynd i Awstralia, yn enwedig gorllewin Awstralia, i fynd i Tasmania – golygfeydd godidog a pobl hyfryd iawn!

Elan Elidir




Night Out / Noson Allan
Seswn Nos Wener
rob@ylolfa.com

Adloniant byw yn Y Llew Gwyn, Talybont am 8 o'r gloch ar nos Wener

26 Mai **GERAINT LOVGREEN**
23 Mehefin **BWCA**
29 Medi **GAI TOMS**
27 Hydref **DELWYN SION**
24 Tachwedd **NEIL ROSSER**

## Tîm Talwrn Tal-y-bont

Am y tro cyntaf ers 2020 roedd modd i Radio Cymru recordio'r rhaglen boblogaidd Talwrn y Beirdd o flaen cynulleidfa fyw eleni a thaith i gartref Hedd Wyn yn yr Ysgwrn, Trawsfynydd oedd yn wynebu Tîm Tal-y-bont. Ysywaeth, colli o drwch blewyn yn y Rownd Gyntaf yn erbyn Y Gwylliaid Cochion oedd yr hanes, ond cafwyd hwyl yn paratoi ac yn perfformio. Dyma ychydig o'r cynnyrch.

**1. Trydargerdd: Fy Hoff Lyfr -** Albwm lluniau'r teulu

Daw i gof drwy'r du a gwyn – yr ennyd
a rennais yn blentyn;
oes o liw, a fesul un
deuliw a'm gwna'n oedolyn.

Anwen Pierce

**2. Cwpled yn cynnwys enw unrhyw frîd o greadur**

Haws hel llacs ar fol Dachshund
Na phrynu brwsh i dŷ brwnt

Phil Thomas

**3. Limrig**

Mae'r Cardi'n y gawod am oria'
yn rwbio ei ddillad da'i goesa
yna scrwbio y corgi,
llond bowlen o lestri,
i gyd ym mathroom drws nesa.

Phil Thomas

**4. Cywydd: Casglu** (boncyffion ar draeth Ynys Las)

Down i'w gweld dros dwyni gwag y tywod a mynd tuag
at dderi sy'n codi'n co' i'n calon, a'r lli'n cilio.

Eilunod yr haul unig heibio'r haf yn gafael brig
y machlud a'r don hudol, a thân hwyr ddaw fyth yn ôl.

Casglwn, yn sŵn cytseiniaid, gwmni'n rhieni a rhaid
eu cofio fel coed cyfan ger ein môr, nid esgyrn mân.

Gwenallt Llwyd Ifan

**5. Pennill ymson: Cyfrif stoc -** Adroddiad Larry'r gath, 2022

Dwi yma ers ryw ddegawd yn cyfrif'r deugoes lu.
Llynedd bu sawl deuawd yn creu llwyth o waith i mi.
Bu mwy ohonynt llynedd – lot mwy na'r ŵyl gerdd dant.
Yn wir, roedd angen 'mynedd cyfrif gwragedd, ci a phlant.
Boris, Liz a Rishi oedd trigolion tŷ rhif deg,
Bu Pickfords wir yn fishi, chwech trip i un ar ddeg.
Rwy'n gobeithio cael hoe eleni, amser hamdden i mi fy hun.
Mae'n rhaid iddi dawelu – dwi angen llyfu' nhin.

Phil Thomas

**6. Cân Ysgafn: Carthu**

Tra'n ciwio'n y feddygfa, crowd anferth o fy mlaen,
Fe'm llenwyd ag anobaith blin, fy ngwep yn llawn o straen.
Ond cefais bwl o beswch, a glywyd dros y Sir,
A'r ciw ddiflannodd megis shot, ac roedd y ffordd yn glir.

Ac yna yn y bwtsiwr wrth giwio am fy nghig,
Rhyw ugain penci o fy mlaen, dechreuais deimlo'n ddig.
Fe lenwais fy ysgyfaint a charthu wnes yn gas,
A gweithiodd fy nghynlluniau'n wych; y dorf a saethodd mas.
A sylweddoli wnes i fod gennyf glamp o ddawn
I wasgar poblogaethau, bob tro mae'r fflem yn llawn,
Wrth glirio'm llwnc i garthu fe allwn wagio'r stryd
O bob oedolyn ci a chath; meddyliais 'gwyn fy myd'.

Fe euthum lan i Lundain, a'm hances yn fy llaw,
Heibio Castell Windsor, a'r cloc yn taro naw.
Wrth weld y drws yn agor, pesychais a'm holl nerth,
Nes bod y brenin newydd yn hedfan dros y berth.
Cyn hir y rown yn feiral a'r byd yn gwylio fi
Ar You Tube, Tik Tok a Snap Chat a weithiau'r Bî Bî Sî.

## Neuadd Goffa Tal-y-bont

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill o Bwyllgor Rheoli Neuadd Goffa Tal-y-bont, o dan gadeiryddiaeth Dafydd Jenkins. Cynhaliwyd y cyfarfod yn yr Ystafell Bwyllgor yn y cefn er mwyn manteisio ar y sgrin fawr a'r offer fideo gynadledda a osodwyd yn ddiweddar, diolch i nawdd ariannol gan Gyngor Sir Ceredigion.

Gwyddom am un mudiad sydd eisoes yn defnyddio'r offer i ddangos dogfennau ar sgrin yn ystod cyfarfodydd i arbed costau argraffu, gan fanteisio ar y gwasanaeth di-wifr i gael mynediad i wybodaeth ar y We. Anfonwyd gair at fudiadau lleol i'w hysbysu o'r datblygiad ac i'w hatgoffa fod modd hefyd defnyddio'r system i gynnal cyfarfodydd hybrid gyda rhai aelodau yn mynychu cyfarfodydd o bell. Gellir hefyd wahodd gwestai i annerch eich pwyllgorau heb iddynt orfod teithio. Manteisiwyd ar y cyfle i ddiolch yn ddiffuant i Ian Jones, Tŷ Morlais am ei holl gymorth yn gosod ac yn profi'r offer newydd.

Adroddwyd hefyd fod y gwaith o ail-harddu'r Neuadd Waelod gyda nawdd Cronfa Eleri yn mynd yn ei flaen gyda'r carped newydd eisoes yn ei le. Bydd angen gwirfoddolwyr cyn bo hir i fwrw ati i baentio'r ystafell. Yna fe symudir yr offer fideo gynadledda i'r Neuadd Waelod.

Mewn datblygiad arall yr ydym yn disgwyl i'r ffenestri gwydro dwbl ychwanegol gael eu gosod yn ystod yr wythnosau nesaf. Talwyd am hanner y gwaith sydd wedi ei gwblhau yn barod allan o arian wrth gefn y Neuadd ond bydd nawdd gan Gyngor Ceredigion yn ein galluogi i sicrhau fod holl ffenestri'r Neuadd yn rhai gwydro dwbl cyn y gaeaf nesaf.

Bydd 2024 yn flwyddyn bwysig wrth i ni ddathlu canmlwyddiant agor y Neuadd ac mae Gwyn Jenkins wrthi'n casglu hanesion a chydlynu ein hymdrechion i nodi'r achlysur mewn ffordd deilwng. Mae'r gwahoddiad yn dal yn agored os ydych yn barod i chwarae eich rhan ar un o bwyllgorau mwyaf bywiog y pentref. Mae llawer yn cael ei gyflawni gan nifer fechan o aelodau ymroddedig. Dewch i ymuno â ni ac fe gewch foddhad o wasanaethu eich cymuned mewn ffordd adeiladol

Phil Davies

Ond heno, fy nghyfeillion, rwy'n erfyn arnoch chi,
I beidio dianc trwy y drws yn sgîl fy ngharthu i.

Phil Davies

**8. Telyneg: Chwerthin** (angladd hen ffrind o ddyddiau coleg, bu'n dioddef o iselder am ei flwyddyn olaf)

Gwylio osgo y ddau o 'mlaen
a gweld ysgwyddau un yn ysgwyd
a'r llall yn edrych o'i gwmpas.
"I ble'r aeth deugain mlynedd?"
"Pryd welaist ti e ddiwethaf?"
Ni'n tri'n cofio'i droeon trwstan o'r gorffennol,
a chwerthin yn dawel wrth gerdded yn nghefn y dyrfa.
Cymeriadau oeddem mewn pennod fer o'i flynyddoedd glas
cyn i'r cyfrolau clawr caled gael eu sgwennu.

Beth petai?
Rhy hwyr, rhy hwyr.

Rhyw wacter dwfn, hiraethus oedd yno i ni.

I eraill, roedd inc yr atalnod llawn yn dal yn wlyb.

Phil Thomas


**9. Englyn: Cofeb -** Cerflun Cranogwen

Y gorwel a wêl o'i gweryd – a'i hawen
a lywia o'i phulpud,
efydd o'r bae faedda'r byd
a'i mawredd dros ei moryd.

Anwen Pierce

# Lewis Thomas – Y Coal King

Ar yr 16 Chwefror 1913 yn Queensland Awstralia bu farw Lewis Thomas un o drigolion mwyaf anturus Ceredigion, gŵr a lawn haeddai trwy ei fentergarwch, y teitl the Coal King of Queensland. Ganed Lewis yn Tanyrallt Tal-y-bont ar yr 20 Tachwedd 1832 yn fab i Thomas Thomas, cartmon a'i wraig Mary, y ddau yn aelodau ffyddlon yng nghapel Bethel. Yn naw mlwydd oed aeth i labro yn ffatrïoedd gwlân y pentre, symud yn ei arddegau i weithfeydd mwyn Esgair Hir a Bwlch Glas ac yna i byllau glo de Cymru.



Yn 1859 priododd Ann Morris yn eglwys Llanfihangel Genau'r Glyn a bron yn syth wedyn gadael am Awstralia – yn amlwg roedd tynfa a chyfleoedd y wlad bell yn gryfach na thynfa bywyd priodasol! Glaniodd yn Victoria a chychwyn gwaith yn cloddio am aur. Wedi dwy flynedd aflwyddiannus yno symudodd i dalaith Queensland i adeiladu rheilffyrdd ac yna i ddatblygu'r haenau cyfoethog o lo yn Redbank a Blackstone. Dyma'r diwydiant sicrhaodd ei ffortiwn ond roedd cysylltiad naturiol rhwng y pyllau a'r rheilffyrdd. Glo oedd tanwydd pob injan – yn syml arweiniai tyfiant yn y system reilffyrdd ar draws y dalaith at gynnydd yn y galw am lo. Glo hefyd oedd yn tanio boeleri y cychod a hwyliai o'r ardal i Brisbane gyda pob cnepyn yn cyfoethogi stad ariannol Lewis Thomas.

Aeth deunaw mlynedd heibio cyn i Ann ymuno â'i gŵr yng Ngorffennaf 1877. Awgryma rhai iddi oedi oherwydd her y fordaith ond mae'n ddigon posib nad oedd yn barod i fudo cyn bod yn sicr o ffyniant Lewis Thomas. Nid oedd angen iddi boeni – erbyn hynny roedd y gweithfeydd glo yn hynod broffidiol ac yn masnachu o dan yr enw Pyllau Aberdâr, adlais eglur o gyfnod Lewis yn y de. Gymaint y bri fel y denwyd glowyr o dde Cymru gan sefydlu cymuned Cymraeg a Chymreig yn Blackstone. Adeiladwyd capel annibynnol yn y dref a bu Lewis a'i wraig yn noddwyr hael i'r achos, i Gôr y Cambria ac i eisteddfod Queensland gan roi gwobr o £100 yn y prif gystadleuaeth gorawl – yn agos at £7,000 yn arian heddiw. Ni anghofiodd am fro ei febyd gan noddi ysgoloriaethau i ddisgyblion o ysgolion ardal Tal-y-bont ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth.

Yn 1890 adeiladodd Thomas blas ysblennydd uwchben Blackstone a'i alw'n Brynhyfryd. Roedd yno dri llawr, 49 ystafell, seler a thŵr yn y canol. Er fod haen gwerthfawr o lo oddi tano gwrthododd gloddio yn y fan gan y gwyddai y gallai'r gwaith beryglu seiliau'r tŷ.

Yn yr un flwyddyn ymddeolodd Lewis Thomas fel Cyfarwyddwr y cwmni gan drosglwyddo'r fusnes i'w weithwyr i sefydlu'r Aberdare Company-Operative Coal Company o dan batrwm cydweithredol. Trodd at wleidyddiaeth, cael ei ethol yn 1893 i'r Queensland Legislative Assembly a pharhau yn aelod tan 1899. Tair mlynedd wedyn fe'i apwyntiwyd gan brif weinidog y dalaith i'r siambr uwch, y Queensland Legislative Council gan wasanaethu tan ei farwolaeth yn 1913.

Mynychwyd ei angladd gan arweinwyr gwleidyddol a chymdeithasol y dalaith. Talwyd teyrnged yn y Gymraeg iddo yn y capel a chanwyd un o'i hoff emynau – eto yn y Gymraeg. Roedd deugain o aelodau Côr y Cambria yn cyd-gerdded ei arch o'r capel i'r fynwent a chafwyd canu pellach ar lan y bedd. Mae cofnod marwolaeth Lewis Thomas yn y Welsh Gazette Mawrth 27 1913 yn dyfynnu'r Queensland Times

*Of a strong rugged personality, possessed of unflagging energy and indomitable spirit which enabled him to persevere in the face of insurmountable obstacles, Mr Thomas was just the stamp of man that this distant part of the British Empire needed in the strenuous days of its youth.*

Dymchwelwyd plasty Brynhyfryd yn 1937 ond erys rhai olion o effaith Lewis Thomas ar yr ardal. Yn Blackstone mae yna Cambrian House, Thomas Street a Mary Street (er cof am ei fam?) ac yn rhif chwech Thomas Street saif yr United Welsh Church yr union achos a sefydlwyd ganddo – un o dri addoldy Cymraeg yn Awstralia. Mae'r Blackstone Cambrian Choir mewn bodolaeth ac yn dal i gystadlu yn Eisteddfod Queensland a gynhelir yn flynyddol adeg y Pasg.

Mae 'na gyfeirio cyson at ddiffyg mentergarwch ymhlith y Cymry. Roedd Lewis Thomas yn un a fentrodd i ben draw'r byd a llwyddo. Heb os daeth anawsterau ar ei draws ac mae'n cydnabod nad oedd geiniog yn gyfoethocach ar derfyn rhai blynyddoedd er ei holl lafur caled. O gofio am Coal King Queensland a dros ganrif ers ei farwolaeth gallwn ond edmygu un o feibion Tal-y-bont am ei ddycnwch a'i ddyfalbarhad.

GIE

## Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth



Cyfarfu deg aelod yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth, ar brynhawn Mawrth, 11 Ebrill, i fwynhau te prynhawn i gloi tymor Cymdeithas y Chwiorydd am eleni. Estynnwyd croeso i bawb gan Eiriona Metcalfe, a diolchodd am y rhodd hael a dderbyniwyd oddi wrth Eirlys Jones a fethodd â mynychu'r cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cafwyd prynhawn dymunol iawn wrth fwynhau'r bwyd a sgwrsio gyda'n gilydd.



# CYMDEITHAS SIOE TAL-Y-BONT

Cynhaliwyd ein cyfarfod blynyddol yn ddiweddar a chroesawyd pawb gan y cadeirydd Dilwyn Jenkins, Wileirog Isaf, ac fe gafwyd adroddiad o Sioe 2022, a fu'n llwyddiant mawr ar ôl y cyfnod clo a diolchodd i bawb am wneud eu rhan yn ystod y flwyddyn.

Llywyddion y sioe eleni yw Glyn a Gill Saunders Jones, Fagwyr.

Etholwyd y swyddogion a ganlyn am 2023:



*Dilwyn Jenkins yn trosglwyddo'r awenau i'r Cadeirydd newydd Huw Davies*

Cadeirydd: Huw Davies, Llety Ifan Hen
Is-gadeirydd: Aled Jenkins, 8 Dôl Pistyll
Trysorydd: Helen Ovens, Crud yr Awel, Taliesin
Trysorydd Cynorthwyol: Howard Ovens, Frondirion
Ysgrifenyddes Gyffredinol: Mair Nutting, Tŷhen Henllys
Ysgrifenyddes y Babell: Siwan Evans, Pantcoch
Rheolwr y Maes: Huw Davies, Llety Ifan Hen
Cyfarwyddwraig y Sioe: Janet Jones, Llwynglas

Bydd sioe eleni yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn 26 Awst ar gaeau'r Llew Du drwy ganiatâd caredig Teulu Richards, Glanleri. Os hoffech stiwardio yn y sioe, byddai'r swyddogion yn falch iawn o glywed gennych. Rydym yn cwrdd bob nos Lun cyntaf o'r mis yn y Neuadd Goffa am 8 o'r gloch, ac mae croeso i unrhyw un ymuno â ni.

**Hyrwyddo Bioamrywiaeth** (O dudalen 1)

Un sefydliad sydd wedi derbyn cymorth gan Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr yw Llifogwyr Tal-y-bont – grŵp lleol sydd wedi bod yn ymgyrchu am flynyddoedd lawer am welliannau yn y system garthffosiaeth ac hefyd am fesurau i liniaru effeithiau llifogydd. Maent wedi cychwyn ar raglen i fonitro yr effaith mae gollwng gorlif carthffosydd yn ei gael ar ansawdd dŵr afonydd Leri a Cheulan – rhywbeth y dylem ni i gyd fod yn bryderus yn ei gylch. Y bwriad yw gwneud y data ar gael yn gyhoeddus yn y dyfodol (gweler erthygl Mick Fothergill gyferbyn).

Mae grŵp o wirfoddolwyr brwdfrydig wedi bod yn cydweithio â thirfeddianwyr lleol am y ddwy flynedd ddiwethaf ar brosiectau plannu coed a chreu perthi. Wedi'u cynnal gan de a chacen, maent wedi plannu miloedd o goed erbyn hyn, gan greu cynefinoedd newydd ac atal cyflymder llifddwr i lawr yr afon. Bu Garddwyr Cymunedol Tal-y-bont wrthi'n cyfnewid hadau, planhigion a chyngor wrth ddefnyddio tudalen Facebook fywiog, yn ogystal â phlannu bylbiau ar ymylon y ffordd. Gall yr holl gymuned a'r ysgol fod yn rhan o brosiectau eraill, fel ennill statws Caru Gwenyn. Mae'r posibiliadau'n ddiddiwedd.

Rydym yn ddigon ffodus i fyw mewn ardal sy'n llawn harddwch naturiol ac mae'n bwysig ei chadw a'i gwella ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Gyda'n gilydd, gallwn wneud y pethau bychain a fydd yn gwneud gwahaniaeth. Os am ragor o fanylion neu am drafod unrhyw brosiect neu syniad da, cysylltwch gyda'r cygor ar **ceulanamaesmawr@gmx.com**.

Nia Richards






# Yn NATURiol

## Samplu Afonydd

**Mae Mick Fothergill wedi byw yn Nhal-y-bont ers dros hanner canrif ac mae ei gartref, Minafon, ar ymyl yr afon Leri. Gan ei fod yn wyddonydd, yn naturiol mae wedi ymddiddori yn yr afonydd lleol ac yma mae'n sôn am yr ymchwil a wnaed yn lleol.**

'Mae Tal-y-bont yn bodoli o ganlyniad i'w hafonydd. Gyda'i gilydd maent yn ffurfio Dalgylch Leri ac roedd grym yr afonydd yn ganolog yn natblygiad y pentref trwy dwf mwyngloddiau arian a phlwm a melinau gwlân. Er bod y dyddiau hynny wedi hen fynd, mae'r afonydd yn dal i chwarae rhan bwysig ym mywyd y pentref. Bu llawer o sylwadau yn y wasg ynghylch cyflwr gwael ein hafonydd yn y DU. Fodd bynnag, rydym yn ffodus gan fod y Leri yn dalgylch cymharol fach, gydag ochrau serth, a heb fawr ddim ffermio dwys hyd yma.

Fodd bynnag, yn ystod 2021 llygrodd Dŵr Cymru yr afon drwy arllwyso carthffosiaeth amrwd ar 93 achlysur am gyfanswm o dros 1770 o oriau. Yng ngoleuni hyn, mae nifer ohonom wedi dechrau monitro ansawdd y dŵr mewn safleoedd o amgylch y pentref. Tra ein bod yn defnyddio technegau cemegol a ddatblygwyd i samplo'r afon Gwy, rydym hefyd yn asesu'r creaduriaid di-asgwrn-cefn a geir yn yr afonydd.





*Bronwen y Dŵr a dau rywogaeth o Bryfed Mai sy'n arwyddion o ansawdd dŵr da.*
*Lluniau Mick Fothergill*

Hyd yn hyn, mae ein canlyniadau uwchben y pentref, yn gemegol ac yn fiolegol, yn awgrymu bod gan yr afonydd ansawdd dŵr da gyda statws maethol isel a'u bod yn cynnal ystod eang o Bryfed y Cerrig, Pryfed Mai a Phryf y Caddis. Mae hyn yn ei dro yn cynnal rhywogaethau eraill fel bronwen y dŵr, y crehyrod a'r hwyaid danheddog a welwyd yn ddiweddar. Fodd bynnag, islaw'r pentref gall effeithiau llygredd fod yn effeithio arnynt a byddwn yn monitro hyn hefyd. Yn anffodus, mae'r niferoedd o sewin wedi gostwng ledled dalgylch Dyfi/Leri.

Heb bysgod yn llenwi'r afonydd ac yn cynnal yr ecosystem, bydd llystyfiant a bywyd gwyllt arall yn methu. Os ydym am weld sewin a rhywogaethau fel y dyfrgi yn dychwelyd i'n dalgylch, rhaid inni warchod ein hafonydd gwerthfawr.'

Mick Fothergill




# Colofn Elin



(CC 4.0 Senedd Cymru)

Mae'r gaeaf eleni wedi teimlo'n hir, ond mae'r gwanwyn nawr yn golygu fod mwy fwy o gyfle i fynd o gwmpas i fwynhau amrywiol ddigwyddiadau yng Ngheredigion.

Rwy'n parhau i weithio gyda'r Cyngor Sir a chwmnïau bysus lleol er mwyn ceisio sicrhau gwell cysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus yn ein mannau gwledig. Heb os, mae'r sector yn parhau i wynebu ansicrwydd, ond mae pawb yn gweithio'n ddiwyd i geisio gwella'r rhwydwaith. Mae'n braf gweld bysus newydd trydanol ar hyd llwybrau'r T1, ac rydym wedi croesawu gwasanaeth newydd y  T1C o Aberystwyth i Gaerdydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar safle Ysbyty newydd Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio. Maent yn nodi tri safle posibl yn ne ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - Gerddi'r Ffynnon, Hendy-gwyn ar Dâf; Tŷ Newydd, Hendy-gwyn ar Dâf; a Sanclêr. Bydd yr ymgynghoriad ar agor hyd ddydd Iau 19 o Fai 2023, ac mae modd i chi roi eich barn drwy holiaduron ar-lein, ac mae cyfres o ddigwyddiadau wedi eu cyhoeddi. Ceir mwy o wybodaeth ar eu gwefan.

Fydd nifer ohonoch sy'n byw mewn ardaloedd poblog, o bosib wedi sylwi ar hysbysiadau am arwyddion yn eich hysbysu o gynigion i newid neu gyflwyno mannau 20mya ar nifer o ffyrdd cyfyngedig. Mae'r Cyngor Sir ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau ymhob pentref sydd ag iddynt gyfyngiad cyflymder o 30mya ar hyn o bryd. Y bwriad yw i'r rhain newid o 30 i 20mya. Disgwylir i'r cyfyngiadau fod yn weithredol o fis Medi 2023 ymlaen. Mae mwy o fanylion am yr holl newidiadau a gynigir ar wefan y Cyngor Sir. Dwi hefyd yn parhau i dynnu sylw Gweinidog Llywodraeth Cymru dros drafnidiaeth at sawl man arall yn y sir sydd ddim yn rhan o'r ymgynghoriad yma, ble mae angen mwy o fesurau i wella diogelwch y ffordd.

Edrychwn ymlaen at yr haf, a gobeithio fyddwch chi'n cael cyfle i fwynhau'r heulwen braf gyda theulu a ffrindiau.

# Y Cinio Mawr – Mehefin 2023!

Mae Cymunedau'r Eden Project yng Nghymru, yn gwahodd darllenwyr eich papur bro i gymryd rhan yn Y Cinio Mawr!

Mae'r Cinio Mawr yn cael ei gynnal bob Mehefin, fel rhan o 'Mis y Gymuned'. Mae'n esgus da i bawb ddod at ei gilydd er mwyn dod i adnabod eich cymdogion yn well, cymdeithasu a dathlu eich cymuned chi.

Llynedd daeth bron i 700,000 o bobl at ei gilydd yma yng Nghymru i gymryd rhan yn Y Cinio Mawr! Mae'n syml! Gallwch drefnu paned gyda'ch cymydog, picnic yn y parc, barbeciw yn yr ardd, parti ar y stryd neu mewn neuadd leol…beth bynnag sydd ore i chi a does dim rhaid gwario!

Pryd? Mae penwythnos swyddogol Y Cinio Mawr eleni ar y 3-4 o Fehefin, ond gallwch drefnu eich Cinio Mawr unrhyw bryd ym Mehefin.

Am syniadau, ryseitiau a mwy ewch i **www.yciniomawr.com** i archebu pecyn digidol a dwyieithog am ddim. Cofiwch gofrestru eich digwyddiad ar ein map ar y wefan hefyd, er mwyn inni gadw llygad ar y datblygiadau cyffrous ar hyd a lled Cymru!

Cofiwch rannu eich cynlluniau a'ch lluniau gyda ni!

**#YCinioMawr**

**Facebook/Instagram/Twitter: Eden Communities Cymru**

**bfutia@edenproject.com**

# Y Gair Olaf

Pwy sy'n cofio'r hwyl o chwarae efo beic yn ei blentyndod? Ac yna'r rhyddid o allu crwydro ymhellach fel yr oeddech yn mynd yn hŷn, ar hyd ffyrdd bach y wlad yn syllu a gwrando ar y byd o'ch cwmpas. Ond rhywsut dros nos mae rhywun yn troi dros hanner cant, ac mae'r elltydd a'r bryniau yn mynd yn fwy serth a'r holl syniad o fynd am dro ar y beic yn boenus.

Wrth siarad efo cyfaill, fe gododd y cwestiwn "Pam na bryni di feic trydan? Mi rwyt ti'n byw mewn ardal fynyddig, ti'n wirion nad oes un gen ti'n barod"

Fel llawer, roeddwn yn meddwl mai twyllo byddai hyn, a chyfaddef i'r byd fy mod wedi mynd yn hen. Pwy andros sydd yn meddwl bod beic trydan yn beicio go iawn, a beth yn union oedd yr apêl?

Wel tair blynedd a 2,000 o filltiroedd yn ddiweddarach, a'r gallu i gario'r ci mewn basged efo fi, rwyf unwaith eto'n teimlo fel plentyn yn beicio o gwmpas y wlad. Dwi wrth fy modd, rwyf allan yn amlach, dal yn teimlo fy mod yn cael ymarfer da i'r corff a llawer o awyr iach. Rydym mor lwcus, mae harddwch ein bro yn syfrdanol, mae golygfeydd anhygoel ymhobman, a rhwydwaith wych o ffyrdd a llwybrau heb fynd ar ffyrdd prysur. A'r peth gorau, rwyf wedi perswadio Robyn fy ngŵr i brynu e-feic hefyd – chwarae teg roedd hi braidd yn annheg mynd am dro ag yntau ar ei feic di-drydan!

Lona Mason



# Chwaraeon



# Tymor Boddhaol

Gyda'r tymor pêl-droed yn dirwyn i ben, bydd chwaraewyr Tal-y-bont yn cael hoe haeddiannol dros yr haf a'r cyfle i baratoi ar gyfer hanner-canmlwyddiant y clwb presennol yn nhymor 2023-24.



Gorffennodd y tîm yn bumed yng Nghynghrair Cambrian Tyres Aberystwyth, safle boddhaol o dan yr amgylchiadau. Yn y gemau olaf llwyddwyd i gipio pwynt yn erbyn Eilyddion Prifysgol Aberystwyth ond collwyd 1-2, mewn gêm glos iawn yn erbyn Y Borth, y clwb sydd yn un o geffylau blaen y cynghrair. Serch hynny, dioddefwyd crasfa gartref yn erbyn Corris yng ngêm olaf y tymor ar 6 Mai. 0-6 oedd y sgôr terfynol.



*Cafwyd digon o gyffro yn y gêm rhwng Tal-y-bont a'r Borth.*
*Lluniau: Beverley Hemmings*

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ
www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com
**Michael Rowlands**
Adeiladwr
01970 832 732 • 07929 003 576

NICEIC
APPROVED CONTRACTOR
**Alun Davies**
Contractiwr Trydanol
**T** 01970 832142 **M** 07703 169813
Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
**E** alun.davies142@btinternet.com